# DOD I ADNABOD EICH COETIR – Canllaw 1

**Ceir mwy na 128,000 hectar o goetir llydanddail yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain i'w canfod ar ffermydd, gan gyfrannu at y dirwedd frith sydd i'w gweld yng Nghymru erbyn heddiw. Mae arferion rheoli yn darparu cyflenwadau pren a chynhyrchion coed, yn ogystal â chynnal amrywiaeth cynefinoedd.**

Er mwyn rheoli unrhyw goetir, mae angen amser i edrych, archwilio ac ystyried cyn gwneud penderfyniadau. Nid oes yr un coetir yr un fath â'i gilydd, ac mae amrywiaeth o ran nodweddion y safle yn cyfrannu at fathau amrywiol o goetiroedd.

## Beth sydd angen edrych amdano?

STRWYTHUR – Dylai coetir aeddfed gynnwys haenau.
Y 'canopi', sef coryn y coed uwchben y coetir, hyd at haenau'r is-ganopi, i lawr at lwyni (yr isdyfiant) a phlanhigion ar y ddaear. Mae'n annhebygol y byddai coedwigoedd heb eu rheoli'n ddigonol a choetiroedd wedi'u pori yn cynnwys strwythur fel hyn. Bydd y llawr yn cynnwys dail a phren marw a fydd yn cynnwys nifer o ffyngau sy'n dadelfennu'r dail marw a'r coed sydd wedi cwympo gan ddychwelyd y maetholion i'r pridd.

TIR AGORED – mae hyn yn galluogi goleuni i gyrraedd llawr y coetir.
Mae llwybrau ar gyfer rheolaeth fel yr hyn a welir yn y llun yn enghraifft o hyn. Gellir gweld mannau agored mwy ar ffurf rhodfeydd, llennyrch a phyllau. Mae lle agored yn cyfrannu at amrywiaeth ar ffurf planhigion ar ymylon coetiroedd a'r pryfed, adar a'r anifeiliaid cysylltiedig. Mae cynnal lle agored yn gwella cynefinoedd bywyd gwyllt, a gall y 10 metr ar ymyl coetir gynnwys llawer o'r fflora a'r ffawna sy'n bresennol yn y goedwig.

OEDRAN Y COED – bydd coedwigoedd yn cynnwys gwahanol strwythur oedran:

a) Oedran afreolaidd – llawer o amrywiaeth o ganlyniad i ystod o wahanol gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau coed: Hen goed a choed hynafol; coed lled-aeddfed a choed llai; Prysgwydd a rhywogaethau llawr y goedwig; Coed ifanc wedi atgynhyrchu'n naturiol.

b) Oedran cyfartal – bydd coed dominyddol y coetir yr un oed â'i gilydd gan eu bod wedi cael eu plannu ar yr un pryd. Gelwir hyn yn goetir planhigfa.




**1** Canopi

**2** Coed Aeddfed

**3** Haen isaf: Coed ifanc yn cyfrannu at goetir gydag oedran afreolaidd

**4** Tir agored – llwybr ar gyfer mynediad a rheolaeth

**5** Fflora ar lawr y goedwig: rhedyn a drain

**6** Gweddillion dail marw

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
FARMING connect
cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE